Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod Bwrdd – Dydd Mercher 4 Medi (Sesiwn Agored)

Cofnodion Drafft

Yn bresennol:

Aelodau Bwrdd	**Aelodau'r Tîm Gweithredol**
Mike Brooker	Liz Davis
Hywel Davies	Ceri Davies
Ruth Hall	Clive Thomas
Madeleine Havard	Kevin Ingram
Harry Legge-Bourke	Trefor Owen
Peter Matthews (Cadeirydd)	Gareth O'Shea (yn cynrychioli Graham Hillier)
Andy Middleton	
Morgan Parry	
Nigel Reader	
Emyr Roberts (Prif Weithredwr)	
Lynda Warren	

Ysgrifenyddiaeth: Geralene Mills

Croeso

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i Gyfarfod y Bwrdd.

Materion Diogelwch

2. Cadarnhawyd y trefniadau gan yr ysgrifenyddiaeth

Ymddiheuriadau

3. Cafwyd ymddiheuriadau wrth Paul Williams, Tim Jones, Niall Reynolds a Graham Hillier.

Datgelu Buddiannau

4. Anogodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd i ystyried ac i ddatgelu buddiannau sy'n berthnasol i eitemau ar y rhaglen.

   Datganodd Ruth Hall fod iddi fudd trwy fusnes asiantau tir ei gŵr a'i mab, mewn perthynas â Chynlluniau Dŵr.

   Datgelwyd budd gan Harry Legge-Bourke mewn perthynas â datblygiad y Cynllun Dŵr ar Ystâd Glan Wysg.

Cofnodion

5. Cytunwyd ar Gofnodion y sesiwn gaeedig a gynhaliwyd ar y 9fed o Oorffennaf, gyda mân ddiwygiadau. **Materion yn Codi** 6. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod y Gweinidog wedi ymateb ynghylch Dalgylchoedd Afonydd **Cofnod Gweithredu** 7. Adolygwyd hwn gan y Bwrdd. **Diweddariad gan y Cadeirydd** 8. Cafodd y Bwrdd olwg cyffredinol gan y Cadeirydd o'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychwyd. Cadarnhawyd y pwnc rhaglen gan y cynllunydd digwyddiadau. **Diweddariad gan y Prif Weithredwr, gan gynnwys cyflwyniad am y Rhaglen Newid** 9. Cafodd y Bwrdd gyflwyniad gan y Prif Weithredwr, a adroddodd ynghylch yr ymarfer ymgysylltu diweddar â'r holl staff, a elwir 'Y Sgwrs'. Roedd Bwrdd Rhaglen Newid misol a fyddai'n cynorthwyo broses llywodraethu newid o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei sefydlu, a byddai adolygiad porth annibynnol yn cael ei gomisiynu erbyn diwedd mis Hydref, gan adrodd yn ôl cyn diwedd y flwyddyn. Bydd PASR yn trafod ac yn cytuno ar gylch cyfrifoldeb yr adolygiad. 10. Bu'r Bwrdd yn trafod effaith cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd ar y berthynas rhwng staff a rhanddeiliaid ac ar barhad cyflawni'r busnes. Aseswyd effaith unigolion yn gadael trwy sgorio ceisiadau, felly disgwylir y bydd modd rheoli'r effaith. Cadarnhawyd bod tua 126 aelod o staff wedi cael cynnig ymadael gwirfoddol cynnar, a bod proses apêl wedi dechrau.	**Pwynt Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r llythyr ymateb i Aelodau'r Bwrdd** **Pwynt Gweithredu: Gofynnodd y Bwrdd a fyddai modd cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda ynghylch Iechyd a Diogelwch.** **Gofynnodd y Bwrdd am restr o ohebiaeth a digwyddiadau yr oedd y Cadeirydd wedi eu mynychu/delio gyda nhw.**
Dangosfwrdd Corfforaethol (NRW B O 29/13) 11. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad perfformio cyntaf yn erbyn dangosyddion Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Bwrdd. Cyflwynwyd a thrafodwyd y dangosfwrdd yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol yn ddiweddar, a oedd wedi dod i'r casgliad y bu cynnydd cadarnhaol o ran monitro a chyflawni targedau, ond roedd yn ceisio barn y Bwrdd ynghylch y graddnodi ac estyniad y targedau. Ymunodd John Hogg, Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol, gyda'r cyfarfod, a rhoddodd grynodeb o'r cyflawniad hyd yn hyn o ran y 46 mesur a bennwyd. 12. Bu'r Bwrdd yn trafod y targedau cyfredol a chytunwyd na ddylid ailystyried y targedau 6 mis ar ôl i'r flwyddyn gychwyn. Fodd bynnag, byddai modd pennu targedau ar gyfer y dyfodol mewn ffordd fwy strategol, perthynol i flaenoriaethau tymor hwy Cyfoeth Naturiol Cymru. Cytunwyd y byddai angen rhoi sylw mwy buan i'r ffaith nad oedd targed wedi cael ei gynnwys ynghylch enw da a chyfathrebu allanol. Dylai fod yn haws olrhain sut hwyl yr ydym yn ei gael ar gyrraedd y nodau buddion breinio ac effeithlonrwydd, ac amcanion y Llythyr Cylch Gwaith. Rhaid darllen y Dangosfwrdd ar y cyd â'r adroddiad Cyllid ac mae'n rhaid i'r rhyngwyneb fod yn fwy eglur - yn arbennig, dylid sicrhau mwy o eglurder ynghylch enillion menter 13. Trafodwyd statws coch y targed Iechyd a Diogelwch; cadarnhawyd ei uchelgais uchel gan bod y targed wedi'i seilio ar adrodd am ddamweiniau lle y collwyd mwy na 3 diwrnod gwaith i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a damweiniau fu bron â digwydd. Mae Pwyllgor Iechyd a Diogelwch ar raddfa gorfforaethol yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae wedi datblygu cynllun gwella er	**Pwynt Gweithredu: Ceri i arwain adolygiad o'r targedau o fewn y dangosfwrdd ar gyfer y dyfodol, gyda chymorth Nigel Reader, Ruth Hall a Madeleine Havard.**

mwyn rhoi sylw i'r risgiau a aseswyd yn 10 risg mwyaf, ac mae wedi sefydlu Pwyllgorau Iechyd a Diogelwch lleol er mwyn ymgorffori datblygu ymhlith yr holl staff. 14. Wrth gloi, gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd adrodd am Iechyd a Diogelwch yn ystod holl gyfarfodydd y Bwrdd, o bosibl fel rhan o Adroddiad y Prif Weithredwr, yn ychwanegol i'r gwaith adrodd mwy manwl rheolaidd. Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd i PASR roi cyngor ynghylch arfer gorau. Ac yntau'n Gadeirydd PASR, gofynnwyd i Nigel Reader gydlynu mewnbwn Mike Brooker ac Aelodau Bwrdd perthnasol, yn enwedig Hywel Davies fel yr hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch, i'r Pwyllgor Gweithredol.	**Pwynt Gweithredu: Liz a Clive i drafod a chytuno ar broses er mwyn adrodd am ddatblygiadau Iechyd a Diogelwch i'r Bwrdd.**
Safonau Llif Dŵr (NRW B O 30/13) 15. Ymunodd Maggie Hill, Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy, a Natalie Hall, arbenigwr Technegol Arweiniol ar Ynni Dŵr, gyda chyfarfod y Bwrdd er mwyn cynnig cymorth wrth gyflwyno'r papur ynghylch safonau llif dŵr. Bu'r Bwrdd yn trafod rhinweddau'r argymhellion a wneir yn y papur ac roedd mwyafrif yr aelodau yn croesawu eglurder y cynnig ac yn cefnogi'r argymhelliad. Amlygodd Harry Legge-Bourke yr angen i ystyried effeithiau'r argymhellion ar Gynlluniau Dŵr llai, ac effeithiau cymdeithasol ac economaidd argymhellion y papur ymhellach. Cefnogwyd hyn gan Andy Middleton. 16. Tynnodd y Cadeirydd y drafodaeth at ei therfyn a gofynnodd i'r Bwrdd bleidleisio am yr argymhellion yn yr adroddiad, gyda chafeat y dylid gwneud gwaith ychwanegol er mwyn ystyried effeithiau'r argymhellion ar ddatblygiadau Cynlluniau Dŵr llai, lle y gallai'r dull gweithredu gyfateb â chaniatâd disgrifiadol ar gyfer gollyngiadau o safleoedd trin carthion bychain a fynegent egwyddorion y meini prawf mewn ffordd ychydig yn wahanol. Yn ogystal, gofynnodd y Cadeirydd a fyddai modd ystyried posibilrwydd taliadau capasiti gyda LlC, Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac OFGEM. Roedd y bleidlais yn cadarnhau bod y Bwrdd yn cefnogi'r argymhellion. Pleidleisiodd Harry Legge-Bourke ac Andy Middleton yn erbyn y cynnig. Cytunwyd ar yr holl argymhellion.	**Pwynt Gweithredu: Ceri i ystyried y posibilrwydd o gael gwahanol fynegiant i'r egwyddorion ar gyfer llif bach a'r posibilrwydd o ddatblygu taliadau capasiti ar gyfer cynlluniau ynni dŵr yng Nghymru**
Cyngor Gwyddonol Annibynnol (NRW B O 31/13) 17. Cyflwynodd y Prif Weithredwr y papur i'r Bwrdd, gan esbonio y byddai angen i'r Tîm Gweithredol geisio cyngor gwyddonol ychwanegol o bryd i'w gilydd. Ymunodd Mike Evans, Pennaeth Tystiolaeth, gyda'r cyfarfod er mwyn cynorthwyo cyflwyno'r papur. 18. Bu'r Bwrdd yn trafod argymhellion y papur, gan awgrymu y dylid gwneud rhagor o waith datblygu gyda chymorth y Grŵp Gwybodaeth. 19. Wrth gloi, rhoddodd y Cadeirydd grynodeb o'r materion ynghylch y trefniadau llywodraethiant arfaethedig, perthnasedd y codau ymarfer ar y cyd, a'r angen i sicrhau bod proses eglur mewn grym er mwyn recriwtio Pwyllgor Cynghorol. Cyfeiriwyd y papur yn ôl er mwyn ei ystyried ymhellach.	**Pwynt Gweithredu: Y Grŵp Gwybodaeth i weithio gyda'r tîm er mwyn datblygu argymhellion y papur cyn ei ailgyflwyno i'r Bwrdd er mwyn cytuno arno.**
Rhaglen gyfalaf rheoli Perygl Llifogydd – gwybodaeth flynyddol ar gyfer y bwrdd 20. Croesawodd y Cadeirydd Deep Sagar, Cadeirydd Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (RhPLlC), i'r cyfarfod. Yn ogystal, roedd Jeremy Parr, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd, yn bresennol hefyd, a chafwyd cyflwyniad byr ganddo yn amlinellu'r rhaglen gyfalaf ynghylch rheoli perygl llifogydd. 21. Cafodd y Bwrdd olwg cyffredinol ar o ddiben ac aelodaeth y Pwyllgor gan Gadeirydd RhPLlC. Mynegodd y Bwrdd ei bryderon ynghylch y cyllid ar gyfer y	**Pwynt Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i**

rhaglen gyfalaf dros y tymor hir. 22. Estynnodd Cadeirydd RhPLlC wahoddiad i aelodau'r Bwrdd ymuno â chyfarfodydd Pwyllgor RhPLlC a gynhelir yn y dyfodol.	**rannu dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd yn ystod 13/14.**
Dyddiadau'r Bwrdd a Phwyllgorau 2014-15 23. Cyflwynwyd papur i'r Bwrdd yn cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd yn ystod 2014, ac awgrymwyd y dylid pennu dyddiadau wrth gefn ychwanegol. Bydd y dyddiadau a gyhoeddwyd yn cael eu cadarnhau yn y dyddiadur corfforaethol yn awr.	**Pwynt Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i holi am ddyddiadau ychwanegol fel dyddiadau wrth gefn ac ar gyfer diwrnodau datblygu i'r Bwrdd.**
Tracio Ymgynghori 24. Nodwyd er gwybodaeth gan y Bwrdd	
Adroddiad gan Bwyllgorau 25. <u>Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol</u> Cafodd y Bwrdd grynodeb ar lafar o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a gynhaliwyd yn ddiweddar, a nodwyd cynnydd ynghylch • Cysoni Tâl • Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd • Cynllunio'r Gweithlu • Cytunwyd ar Gynllun Arfarnu ar gyfer y Tîm Gweithredol 26. Roedd y Bwrdd Cynghori Pontio wedi trafod a chytuno ar gasgliadau ymarfer ymgysylltu gyda staff y Sgwrs, a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr yn gynharach. <u>Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg</u> 27. Nododd y Bwrdd yr adroddiad ysgrifenedig a ddarparwyd i'r Bwrdd, a chadarnhaodd Cadeirydd PASR bod amser wedi cael ei neilltuo yn ystod y cyfarfod diwethaf i ystyried Adroddiadau Blynyddol a chyfrifon y cyrff blaenorol, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Bellach, mae'r archwilydd cyffredinol wedi cytuno ar gyfrifon ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru. <u>Rheoli Perygl Llifogydd Cymru</u> 28. Cadarnhaodd Madeleine bod y cyfarfod diwethaf wedi cynnwys taith maes i'r Borth, a fu'n ddiddorol, ac roedd nifer dda wedi mynychu. <u>Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig</u> 29. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod am y tro cyntaf ym mis Hydref. Awgrymwyd y dylid trefnu'r cyfarfod cyntaf er mwyn rhoi amser i'r Pwyllgor ystyried materion perthnasol eraill.	**Pwynt Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod gan neilltuo amser er mwyn ystyried materion perthnasol eraill cyn dechrau ystyried safleoedd ardaloedd gwarchodedig**
Diweddariad gan Grwpiau Bwrdd <u>Economi a Menter – Harry Legge-Bouke</u> 30. Adroddwyd bod y gwaith yn parhau gyda'r tîm Menter i ddatblygu cyfleoedd er mwyn datblygu menter ar yr ystâd goedwigaeth. Amlygwyd yr angen i gydlynu'r holl bartïon y mae budd iddynt er mwyn hyrwyddo gwerthu llarwydd heintiedig. <u>Cymunedau – Neuadd Ruth</u> 31. Nodwyd yr adroddiad ysgrifenedig gan y Bwrdd. Esboniodd y Cadeirydd bod Rebecca Williams wedi mynychu'r gweithdy a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda Llywodraeth Cymru, a oedd yn ceisio hyrwyddo amrywiaeth o fewn aelodaeth y Bwrdd. Bellach, mae Llywodraeth Cymru yn pennu camau ar gyfer y Cadeirydd	**Pwynt Gweithredu: Trefor i gynnull cyfarfod gyda'r holl bartïon y mae budd iddynt, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ynghylch llarwydd heintiedig, gan adrodd yn ôl i'r Bwrdd.**

a bydd grŵp y Bwrdd Cymunedau yn rhoi cymorth pellach wrth ymateb i'r camau gweithredu. Cadarnhaodd Madeleine Havard ei bod yn awyddus i sicrhau cynnydd o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth Yr Amgylchedd 32. Cadarnhaodd y Grŵp ei fod wedi cynorthwyo'r pwyllgor Gweithredol trwy ystyried nifer o ymatebion ymgynghori. Gwybodaeth 33. Cadarnhaodd y Grŵp eu bod wedi ymdrechu i symud ymlaen gyda'r ohebiaeth ynghylch addysg uwchradd a gafwyd yn ystod y Gaeaf y llynedd, ond nad oedd unrhyw beth i'w adrodd. Yn wir, roedd yn ymddangos y byddai rheoli adnoddau naturiol a datblygiad cynaliadwy yn cael ei ystyried yn fater galwedigaethol, ac y byddai felly yn cael ei ystyried gan wahanol Weinyddiaeth. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfeirio at hyn yn ei lythyr i'r Prif Weinidog, a'i fod yn aros am ateb. Bydd y Grŵp Gwybodaeth yn parhau gyda'i ymdrechion ac yn adrodd.	**Pwynt Gweithredu: Y Grŵp Gwybodaeth i barhau i ymateb i hyn**
Unrhyw Fater Arall – Cofrestr Syniadau Da 34. Cofrestr Syniadau Da – Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod dros 250 o dudalennau o ymatebion wedi eu casglu yn ystod y gweithgarwch ymgysylltu gyda staff a gynhaliwyd yn ddiweddar. Bydd y grŵp Arweinyddiaeth yn gyfrifol am werthuso'r syniadau hyn ac ymateb iddynt. 35. Cadarnhawyd crynodeb byr o'r camau gweithredu allweddol a'r penderfyniadau a wnaethpwyd yn ystod Sesiwn Friffio y 3ydd o Fedi: • Roedd y Bwrdd yn croesawu'r deunydd briffio, gan roi cyngor er mwyn helpu datblygu strategaeth Cymunedau Trefol. • Cytunwyd bod ein gweithgareddau a'n swyddogaethau presennol yn fan cychwyn da er mwyn blaenoriaethu ym maes gwaith trefol, a fydd yn cyfrannu at ganlyniadau allweddol Cynllun Corfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru. • Cytunwyd y darperir deunydd briffio tebyg am gymunedau gwledig, erbyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr o bosibl. • Roedd y Bwrdd yn awyddus i bwysleisio bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnwys nifer o aelodau y mae ganddynt gyfrifoldebau sy'n effeithio ar gymunedau trefol, a phwysleisiodd yr angen i wrando ar bartneriaid ac i weithio gyda nhw.	
36. Tîm yr ysgrifenyddiaeth i ddatblygu cyhoeddi dyddiadau a phapurau cyfarfodydd y Bwrdd. 37. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a fyddai modd ystyried y pynciau canlynol yng nghyfarfodydd yn y dyfodol • Strategaeth gyfathrebu • Strategaeth bysgodfeydd Daeth y Cyfarfod i Ben	**Pwynt Gweithredu: Yr ysgrifenyddiaeth i adolygu'r cyfathrebu sy'n cynnal papurau a dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd.**